BWRDD GWEITHREDOL

2 RHAGFYR 2019

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
C.A. Campbell, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins, L.M. Stephens a J. Tremlett.

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorydd D. Cundy.

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
W. Walters, Prif Weithredwr;
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
S. Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg;
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP: 10:00yb - 10:20yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd P. M. Hughes.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

4. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

5. RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - CYNNIG I NEWID NATUR Y DDARPARIAETH YN YSGOL RHYS PRICHARD

Yn unol â chofnod 9 ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi 2019, bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch y sylwadau a ddaeth i law mewn perthynas â'r Hysbysiad Statudol i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Rhys Pritchard i gyfrwng Cymraeg. Yr oedd yr Hysbysiad Statudol yn caniatáu 29 o ddiwrnodau i wrthwynebwyr anfon eu gwrthwynebiadau'n ysgrifenedig at y Cyngor, a daeth y cyfnod hwnnw i ben ar 22 Hydref 2019.

Nododd y Bwrdd gynnwys yr adroddiad gwrthwynebu a oedd yn crynhoi'r ddau sylw a ddaeth i law a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig ac yn cynnwys ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r naill sylw a'r llall.

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant fod y cynnig i newid natur darpariaeth Ysgol Rhys Prichard i Gyfrwng Cymraeg yn cefnogi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin a'i weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin ddwyieithog. Nod yr Awdurdod oedd sicrhau twf sylweddol mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i gynyddu nifer y plant a phobl ifanc sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ac sydd â'r gallu i ddefnyddio'u hieithoedd yn hyderus gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

5.1 fod y sylwadau a gafwyd mewn perthynas â'r Hysbysiad Statudol yn cael eu nodi;

5.2 ARGYMELL I'R CYNGOR fod y cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Rhys Prichard i Gyfrwng Cymraeg, fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Statudol, yn cael ei weithredu.

6. CYNNIG I NEWID NATUR Y DARPARIAETH YN YSGOL Y DDWYLAN, YSGOL GRIFFITH JONES, YSGOL LLANGYNNWR AC YSGOL LLYS HYWEL

Yn unol â chofnod 8 ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi 2019, bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch y sylwadau a ddaeth i law mewn perthynas â'r Hysbysiad Statudol i newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Ddwylan, Ysgol Griffith Jones, Ysgol Llangynnwr ac Ysgol Llys Hywel o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg. Yr oedd yr Hysbysiadau Statudol yn caniatáu 29 o ddiwrnodau i wrthwynebwyr anfon eu gwrthwynebiadau'n ysgrifenedig at y Cyngor, a daeth y cyfnod hwnnw i ben ar 22 Hydref 2019.

Roedd yr adroddiad gwrthwynebu yn crynhoi'r sylwadau a ddaeth i law yn gwrthwynebu'r cynnig ac yn cynnwys ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r holl sylwadau.

Nododd y Bwrdd fod 2 wrthwynebiad wedi dod i law ar gyfer Ysgol Y Ddwylan, 1 gwrthwynebiad i Ysgol Llys Hywel ac ni ddaethai unrhyw wrthwynebiad i law ar gyfer Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Llangynnwr.

Esboniodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant fod y cynnig i newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Ddwylan, Ysgol Griffith Jones, Ysgol Llangynnwr ac Ysgol Llys Hywel o fod yn ddwy ffrwd i Gyfrwng Cymraeg yn cefnogi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin a'i weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin ddwyieithog.

Ychwanegodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig fod gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i ddarparu'r addysg a'r cyfleoedd gorau posibl i'w gymunedau.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

6.1 fod y sylwadau a gafwyd mewn perthynas â'r Hysbysiad Statudol yn cael eu nodi;

6.2 ARGYMELL I'R CYNGOR fod y cynnig i newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Ddwylan, Ysgol Griffith Jones, Ysgol Llangynnwr ac Ysgol Llys Hywel o fod yn ddwy ffrwd i Gyfrwng Cymraeg fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Statudol, yn cael ei weithredu o 1 Medi 2020.

7. ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2019 I MEDI 30AIN 2019

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau rheoli'r trysorlys o 1 Ebrill 2018 hyd at 30 Mehefin 2018.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

8. UNRHYW FATER ARALL

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau brys.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**